# Fframwaith Cwricwlwm ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Nam ar y Golwg (CFVI)

## Trosolwg o'r fframwaith

| Yr 11 maes dysgu sydd wedi'u diffinio gan y fframwaith | |
|---|---|
| **1. Hwyluso Byd Cynhwysol** | Cydnabod rôl addysgwyr (gan gynnwys ymarferwyr arbenigol) a rhieni/gofalwyr fel hwyluswyr ac eiriolwyr ar gyfer plant a phobl ifanc â nam ar y golwg mewn addysg a chymdeithas. |
| **2. Datblygiad Synhwyraidd** | Gweithio gyda phlant a phobl ifanc i wneud y defnydd gorau o'r synhwyrau a'u datblygiad. |
| **3. Cyfathrebu** | Gweithio gyda phlant a phobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu cymdeithasol. |
| **4. Llythrennedd** | Gweithio gyda phlant a phobl ifanc i ddatblygu sgiliau llythrennedd. |
| **5. Cymhwysedd: Cyfeiriadedd a Symudedd** | Cefnogi plant a phobl ifanc i allu symud yn ddiogel drwy eu byd mor annibynnol â phosibl. |
| **6. Cymhwysedd: Sgiliau Byw yn Annibynnol** | Cefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau o ddydd i ddydd sydd arnynt eu hangen er mwyn byw bywyd mor annibynnol â phosibl. |
| **7. Mynediad at Wybodaeth** | Addysgu dulliau y gall plant a phobl ifanc eu defnyddio i gael mynediad at, creu a rheoli gwybodaeth yn annibynnol. |
| **8. Technoleg** | Darparu hyfforddiant a chyfle i blant a phobl ifanc ddefnyddio technoleg gyda chymaint o annibyniaeth â phosibl. |
| **9. Iechyd: Lles Cymdeithasol, Emosiynol, Meddyliol a Chorfforol** | Darparu addysgu a chefnogaeth wedi'u targedu i hwyluso datblygiad lles meddyliol, emosiynol, cymdeithasol a chorfforol plant a phobl ifanc. |
| **10. Cymdeithasol, Chwaraeon a Hamdden** | Cefnogi plant a phobl ifanc i gael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, chwaraeon a hamdden. |
| **11. Paratoi ar gyfer bod yn Oedolyn** | Cefnogi plant a phobl ifanc i baratoi ar gyfer eu bywydau ar ôl addysg orfodol a gwneud penderfyniadau ar gyfer eu dyfodol. |

RE220108

© RNIB elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (226227), Yr Alban (SC039316), Ynys Manaw (1226). Hefyd yn weithredol yng Ngogledd Iwerddon.